



Ymgynghoriad ar Dempledi Cymwysterau Cyffredinol Prosiect Data Cymwysterau Cymru

Rhagarweiniad

Ers diwedd 2016, buom yn ystyried y ffordd orau o gasglu data a chyhoeddi ystadegau ar gymwysterau rheoleiddiedig a gynigir yng Nghymru. Rydym wedi siarad â chyrff dyfarnu, rheoleiddwyr eraill a chyrff cynrychioliadol am y dulliau gweithredu posibl y gallem eu mabwysiadu a'r systemau a'r prosesau y gall fod angen i ni eu rhoi ar waith.

Rydym wedi datblygu templedi drafft ac amserlen arfaethedig ar gyfer casglu data ar **gymwysterau cyffredinol** y mae dysgwyr yng Nghymru yn astudio ar eu cyfer. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio eich barn ar ymarferoldeb ein templedi arfaethedig a'n hamserlen gasglu ar gyfer cyrff dyfarnu.

Rydym yn ystyried ein cynigion ar gyfer casglu data ar gymwysterau galwedigaethol ar wahân ac nid ydynt yn rhan o'r ymgynghoriad hwn. Bydd Ofqual yn parhau i gasglu a darparu data ar gymwysterau galwedigaethol yng Nghymru am y tro. Byddwn yn ymgysylltu â chyrff dyfarnu fel sy'n briodol yn ein barn ni maes o law, wrth i ni ddatblygu ein cynigion ymhellach.

Dull gweithredu

Mae gennym ddau brif nod, sef:

- Sicrhau bod cymwysterau, a system gymwysterau Cymru, yn llwyddo'n effeithiol i ddiwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru
- Ennyn hyder y cyhoedd mewn cymwysterau a system gymwysterau Cymru

Er mwyn cyflawni'r nodau hyn, mae'n rhaid i ni allu casglu, dadansoddi a chyhoeddi data am gymwysterau yng Nghymru. Bydd data amserol a dibynadwy yn ategu gwaith rheoleiddio effeithiol wedi'i dargedu ac yn helpu i sicrhau ymchwil o ansawdd gwell. Bydd yn rhoi darlun clir a chywir o'r ffordd y mae system gymwysterau Cymru yn gweithredu ac i ba raddau y mae'n diwallu anghenion dysgwyr a defnyddwyr cymwysterau eraill. Bydd gwybodaeth well hefyd yn galluogi cyrff dyfarnu i deilwra eu darpariaeth i'r farchnad yng Nghymru. Rydym am sefydlu system effeithiol ac effeithlon i gasglu data gan gyrff dyfarnu.

Mae cyrff dyfarnu wedi mynegi pryderon ynghylch y baich y gall y gwaith o gasglu data ei osod arnynt ac wedi gofyn i ni fod yn gymesur o ran ein gofynion. Rydym wedi ystyried y pryderon hyn yn ein cynigion.

Bwriedir i'r ymgynghoriad hwn gael adborth ar ein cynigion a chadarnhau eu bod yn briodol, yn enwedig mewn perthynas â chasglu data wedi'u cyfuno a data wedi'u dadgyfuno. At ddibenion yr ymgynghoriad hwn, ystyr 'data wedi'u dadgyfuno' yw data a gesglir ar lefel ymgeisydd (a all gynnwys mwy nag un cofnod fesul ymgeisydd), tra mai ystyr 'data wedi'u cyfuno' yw data a gesglir ar lefel uwch na chofnodion ymgeiswyr, er enghraifft, nifer yr ymgeiswyr ar lefel cymhwyster neu uned.

Opsiynau

Nid oes unrhyw opsiwn i barhau i ddibynnu am gyfnod amhenodol ar Ofqual i gasglu data ar ein rhan. Felly, mae tri opsiwn posibl:

- a) **Rydym yn adlewyrchu'r templedi a ddefnyddir gan Ofqual ac yn mynd ati i gasglu cymysgedd o ddata wedi'u dadgyfuno ar lefel ymgeisydd a data wedi'u cyfuno.** Byddai hyn yn golygu mai dim ond un set o gyfarwyddiadau casglu a fyddai gan gyrff dyfarnu i'w dilyn. Fodd bynnag, byddai hefyd yn golygu nad oeddem wedi ystyried yr adborth gan gyrff dyfarnu. Byddai hefyd yn ddull gweithredu na fyddai'n adlewyrchu'r gwahaniaethau yn y farchnad cymwysterau cyffredinol yng Nghymru a Lloegr.
- b) **Rydym yn datblygu ein dull gweithredu ein hunain ac yn casglu data wedi'u cyfuno yn rheolaidd gan ddefnyddio ein templedi ein hunain.** Byddai hyn yn golygu mai dim ond data wedi'u cyfuno y byddai angen i gyrff dyfarnu eu darparu'n rheolaidd. Mae hefyd yn dileu'r angen i gysoni'r dulliau o gasglu data a ddefnyddir yng Nghymru a Lloegr.
- c) **Rydym yn datblygu ein dull gweithredu ein hunain ac yn casglu data wedi'u dadgyfuno ar gyfer pob elfen** h.y. casglu'r holl wybodaeth ar lefel ymgeisydd (pan fo hyn yn gymwys i'r pwnc). Byddai hyn yn golygu mai cyrff dyfarnu a fyddai'n darparu'r rhan fwyaf, os nad y cyfan, o'r wybodaeth a ddelir yn eu systemau. Byddai'n gofyn am ateb TG costus a gellir ystyried ei fod yn anghymesur â'n gofynion.

Yn dewis sydd orau gennym yw i frwr ymlaen ag opsiwn b ar gyfer ein casgliadau rheolaidd gan gyrff dyfarnu.

Fel rheoleiddiwr, mae angen set safonol o ddata arnom i gyflawni ein gweithgarwch rheoleiddio. Fel corff ymchwil sy'n gofyn cwestiynau cymhleth, weithiau byddwn yn gofyn am fwy o fanylder. Yn y naill achos a'r llall mae angen i'r broses o gasglu data fod mor effeithlon â phosibl. Os bydd angen mwy o fanylder arnom, gan gynnwys data ar lefel ymgeisydd, byddwn yn gofyn am hyn fesul achos. Deallwn o'n gweithgarwch ymgysylltu â chyrff dyfarnu y bydd y dull hwn o weithredu yn fwy effeithlon a hydrin na chasglu a storio llawer iawn o ddata ar lefel ymgeisydd fel mater o drefn.

Felly, rydym yn ymgynghori ynghylch ein cynnig i ddefnyddio'r templedi a ddarperir i gyflawni'r opsiwn hwn.

Mae ein cynigion ar gyfer casglu data o dan opsiwn b fel a ganlyn:

Mathau o ddata a gyflwynir gan gyrff dyfarnu

- Bydd angen i gyrff dyfarnu gyflwyno data wedi'u cyfuno i ni yn rheolaidd.
- Os bydd yn angenrheidiol at ddibenion ymchwil neu reoleiddio, byddwn yn gofyn i gyrff dyfarnu gyflwyno data manwl i ni fesul achos. Gellir gofyn am y data hyn ar lefel ymgeisydd.
- Efallai y bydd angen i ni ofyn am ddata manwl i ateb cwestiynau ymchwil yn unol â gweithgarwch ymchwil amserlenedig, neu pan fydd cwestiynau ymchwil yn codi. Ni chaiff y math hwn o gasgliad ei wneud ar dempled safonol a bydd ar ffurf gofyniad wedi'i deilwra. (Rhoddir cymaint o rybudd â phosibl ymlaen llaw am yr angen i gyflwyno data. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw amserlen a bennwyd ymlaen llaw).
- Ar gyfer ein casgliadau rheolaidd, bydd angen i gyrff dyfarnu roi data ar gyfer dysgwyr a gofrestrwyd gan ganolfannau a leolir yng Nghymru (rhifau adnabod canolfannau sy'n dechrau gyda '68' yn bennaf) i ni.

Amserlen Gasglu

Rydym yn bwriadu dechrau casglu data cymwysterau cyffredinol o flwyddyn academaidd 2017/18, gan ddechrau ym mis Hydref 2017 gyda dysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer cyfres Tachwedd 2017. Yn y cyfamser, bydd Ofqual yn parhau i gasglu data dysgwyr ar gyfer blwyddyn academaidd 2016/17 ar ein rhan.

Mae'r allwedd isod yn Nhabl 1 yn esbonio'r codau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer yr amserlenni casglu yn Nhablau 2 a 3. Yn yr amserlenni dilynir enw'r casgliad gan y gyfres y mae'n cyfeirio ati (TACH/ION/MAW/MEH/POB UN), p'un a yw'r casgliad yn un rhagarweiniol (Rh) neu derfynol (T), ac, os oes mwy nag un templed ar gyfer y casgliad, faint o dempledi sydd (e.e. mae X2 yn dynodi dau dempled, mae X4 yn dynodi pedwar templed). Mae Tablau 1, 2 a 3 hefyd wedi'u cyhoeddi mewn fformat Excel ochr yn ochr â'r ddogfen ymgynghori hon, ynghyd â'r templedi arfaethedig.

Tabl 1: Yr allwedd ar gyfer dehongli amserlenni casglu

Cofrestriadau a Dyfarniadau	Cofrestriadau a Dyfarniadau
CofrestriadauGB	Cofrestriadau yn ôl Grŵp Blwyddyn
AGM	Adolygu Gwaith Marcio
AGM >1NG	Adolygu Gwaith Marcio – newidiadau i raddau, 2 radd neu fwy
Camymddwyn	Camymddwyn
Apeliadau	Apeliadau
TrefMyn	Trefniadau Mynediad
PapHadd	Papurau wedi'u Haddasu
YstArb	Ystyriaeth Arbennig
AdEst	Adolygiadau Estynedig
MarAr-leinaTrad	Marcio Ar-lein a Marcio Traddodiadol
E-Asesu	E-Asesu

Nodir yr amserlen ar gyfer casglu data rydym yn bwriadu ei mabwysiadu ar gyfer blwyddyn academaidd 2017/18 yn Nhabl 2 isod. Nid yw'r amserlen hon yn cynnwys casgliadau y bydd Ofqual yn eu cynnal ar ein rhan yn ystod y cyfnod hwnnw (pob casgliad data cymwysterau galwedigaethol, a chasgliadau data cymwysterau cyffredinol sy'n weddill ar gyfer dyfarniadau a wnaed ym mlwyddyn academaidd 2016/17). Byddwn yn ceisio amserlennu pob casgliad er

mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd ag ymarfer casglu data Ofqual ar gyfer yr un pwnc. Fodd bynnag, rydym yn bwriadu casglu rhywfaint o'r data sy'n ymwneud â chyfresi dyfarnu mis Ionawr a mis Mawrth ar yr un pryd â chasgliadau ar gyfer yr un pwnc sy'n ymwneud â chyfresi mis Mehefin. Nodir y casgliadau hynny yn Nhabl 2, yn hytrach nag yn Nhabl 1, ar gyfer y cyfresi dyfarnu ym mlwyddyn academaidd 2017/18. Ar ôl yr ymgynghoriad hwn, byddwn yn gweithio gyda'r cyrff dyfarnu perthnasol ac Ofqual i gytuno ar ddyddiadau mwy pendant ar gyfer y casgliadau.

Mae enwau'r templedi yn yr amserlen gasglu yn Nhablau 2 a 3 yn cyfeirio at y templedi arfaethedig rydym yn ymgynghori arnynt. Ceir y templedi a'r meysydd sydd wedi'u cynnwys ynddynt ar wefan yr ymgynghoriad mewn fformat Excel. Mae'r amserlenni casglu yn Nhablau 2 a 3 wedi'u trefnu gyda thair rhes ar gyfer pob mis. Mae'r rhes gyntaf yn cynnwys casgliadau y disgwylir iddynt gael eu cynnal yn ystod trydedd ran gyntaf y mis (h.y. 1^{af}-10^{fed}), mae'r ail res yn cynnwys casgliadau y disgwylir iddynt gael eu cynnal yn ystod trydedd ran ganol y mis (h.y. 11^{eg}-20^{fed}) ac mae'r drydedd res yn cynnwys casgliadau y disgwylir iddynt gael eu cynnal yn ystod trydedd ran olaf y mis (h.y. 21^{ain}-31^{ain}). Ceir sawl colofn ar gyfer pob mis er mwyn cyfrif am fisoedd lle mae mwy nag un casgliad wedi'i amserlennu.

Tabl 2: Ein hamserlen arfaethedig ar gyfer casglu data cymwysterau cyffredinol yn ystod blwyddyn academaidd 2017/18 (Medi 2017 - Awst 2018)

Amserlen Cymwysterau Cymru ar gyfer Casglu Data Cymwysterau Cyffredinol 2017/18 (26 o gasgliadau)									
Medi			Hydref				Tachwedd		
			Cofrestrïadau GB TACH (Rh)						
			Cofrestrïadau TACH (Rh)	Cofrestrïadau GB TACH (T)					
Rhagfyr			Ionawr				Chwefror		
			Cofrestrïadau a Dyfarnïadau TACH				AGM X4 TACH (Rh)		
Cofrestrïadau ION (Rh)									
Mawrth			Ebrill				Mai		
Cofrestrïadau (T) a Dyfarnïadau ION			Cofrestrïadau MAW/MEH (Rh)						
			Cofrestrïadau GB MEH (T)						
AGM X4 TACH (T)			Apeliadau TACH (Rh)						
Mehefin			Gorffennaf				Awst		
AGM X4 ION (T)			AdEst TACH				Cofrestrïadau (T) a Dyfarnïadau MAW/MEH		
							PapHadd POB UN		
			Apeliadau TACH (T)				TrefMyn POB UN		

Dengys Tabl 3 yr amserlen ar gyfer casglu data cymwysterau cyffredinol rydym yn bwriadu ei mabwysiadu ar gyfer blwyddyn academaidd 2018/19. Mae'n cynnwys casgliadau sy'n ymwneud â blynyddoedd academaidd 2017/18 a 2018/19. Mae'r casgliadau sy'n ymwneud â blwyddyn academaidd 2017/18 yn cynnwys rhai casgliadau sy'n ymwneud â chyfresi mis Tachwedd 2017, mis Ionawr 2018 a mis Mawrth 2018 a fydd yn cael eu cynnal o fis Medi 2018 ymlaen, ar ôl cyhoeddi canlyniadau cyfresi Mehefin 2018. Rydym yn bwriadu defnyddio'r amserlen gasglu a ddangosir yn Nhabl 3 mewn blynyddoedd academaidd dilynol.

Tabl 3: Ein hamserlen arfaethedig ar gyfer casglu data cymwysterau cyffredinol yn ystod blwyddyn academiaidd 2018/19 (Medi 2018 - Awst 2019)

Amserlen Cymwysterau Cymru ar gyfer Casglu Data Cymwysterau Cyffredinol 2018/19 (47 o gasgliadau)								
Medi			Hydref			Tachwedd		
AdEst ION			E-Asesu POB UN	MarAr-leinaTrad POB UN	CofrestriadauGB TACH (Rh)			
AGM x4 MEH (Rh)			YstArb x2 POB UN			Apeliadau MEH (Rh)	Camymddwyn x2 POB UN	
Apeliadau ION (T)			Cofrestriadau TACH (Rh)	CofrestriadauGB TACH (T)		AGM x4 MAW/MEH (T)	AGM>1NG POB UN	AGM Heriwyd Gradd POB UN
Rhagfyr			Ionawr			Chwefror		
			Cofrestriadau a Dyfarniadau (T) TACH			AdEst MAW/MEH	AGM X4 TACH (Rh)	
Cofrestriadau ION (Rh)						Apeliadau MAW/MEH (T)		
Mawrth			Ebrill			Mai		
Cofrestriadau (T) a Dyfarniadau ION			Cofrestriadau MAW/MEH (Rh)					
			CofrestriadauGB MEH (T)					
AGM X4 TACH (T)			Apeliadau TACH (Rh)					
Mehafin			Gorffennaf			Awst		
AGM X4 ION (T)			AdEst TACH			Cofrestriadau (T) a Dyfarniadau MAW/MEH		
						PapHadd POB UN		
			Apeliadau TACH (T)			TrefMyn POB UN		

Pontio

Rhagwelwn y bydd y mathau o gymwysterau cyffredinol sydd wedi'u cynnwys yn ein templedi cyflwyniadau rheolaidd yr un peth â'r cymwysterau a nodir yng nghanllawiau presennol Ofqual ar gasglu data. I grynhoi, byddwn yn casglu data ar gyfer dysgwyr a gofrestrwyd gan ganolfannau yng Nghymru ar gyfer:

- TGAU
- TAG
- Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru
- Tystysgrifau lefel 1/2/3 mewn cymwysterau cyffredinol (cymwysterau amgen yn lle TGAU a TAR neu gymwysterau sy'n ategu TGAU a TAR, er enghraifft tystysgrifau lefel 1/2, cymwysterau Prosiect Estynedig)

Dim ond data ar gymwysterau a reoleiddir gennym y byddwn yn eu casglu. Mae hyn yn cynnwys cymwysterau '[cymeradwy](#)', [cymwysterau 'dynodedig](#)' a chymwysterau 'eraill a reoleiddir'. Mewn geiriau eraill, pob cymhwyster sy'n ateb y disgrifiadau uchod y mae corff dyfarnu a gydnabyddir gennym yn eu cynnig yng Nghymru ac nad yw'r corff dyfarnu wedi'u hildio'n benodol o gwmpas eu cydnabyddiaeth.

Mae data sy'n ymwneud ag ardystiadau ar Dystysgrif Her Sgiliau ddiwygiedig Bagloriaeth Cymru yn cael eu dychwelyd i Ofqual ar hyn o bryd fel rhan o'r templed cymwysterau galwedigaethol chwarterol. O'r adeg rydym yn dechrau casglu data cymwysterau cyffredinol, byddwn yn casglu data ar Dystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru gan ddefnyddio ein templedi cymwysterau cyffredinol.

Asesiadau cyfrwng Cymraeg

Drwy ein casgliadau data, rydym am ddysgu mwy am y galw am asesiadau drwy gyfrwng y Gymraeg a'r ddarpariaeth o ran asesiadau o'r fath. Nid yw'r data hyn wedi'u casglu o'r blaen. Felly, rydym yn cynnig y dylid ychwanegu meysydd newydd at yr ymarfer casglu data 'cofrestriadau' er mwyn casglu codau cofrestru cyfnewid a chodau cofrestru uned. Dylai hyn ddweud mwy wrthym am faint o ymgeiswyr sy'n cael eu cofrestru ar gyfer asesiadau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn y dyfodol, efallai y byddwn am gasglu data ar yr iaith a ddefnyddir gan ymgeiswyr i ymateb i gwestiynau. O siarad â chyrff dyfarnu, gwyddom fod hwn yn faes nad oes data dibynadwy ar gael ar ei gyfer ar hyn o bryd. Yn yr ymgynghoriad, rydym yn gofyn a fyddai'n bosibl i'r math hwn o ddata gael eu casglu, pryd y gellid gwneud hynny a pha heriau a allai fod yn gysylltiedig â hyn.

Gwybodaeth arall am ein cynigion

Mae cyrff dyfarnu wedi erfyn ar reoleiddwyr i gysoni eu dulliau gweithredu cyn belled â phosibl. O ystyried hyn, rydym wedi ceisio sicrhau bod ein templedi mor debyg â phosibl i'r rhai a ddefnyddir gan Ofqual. Ein bwriad yw sicrhau mai dim ond mân addasiadau i'w prosesau busnes presennol y bydd angen i gyrff dyfarnu eu gwneud er mwyn gallu darparu data sy'n ymwneud â chymwysterau a gynigir yng Nghymru i ni, yn hytrach nag Ofqual.

- Rydym yn tybio, ar hyn o bryd, y byddwn yn casglu data ar drefniadau mynediad yn yr un ffordd ag y mae Ofqual yn ei wneud, gyda rhywfaint o'r data yn cael ei ddarparu gan y Cydbwyllgor Cymwysterau (JCQ). Bydd angen cytuno ar hyn â JCQ ac mae'r broses honno y tu hwnt i gwmpas yr ymgynghoriad hwn.
- Nid ydym yn bwriadu atgynhyrchu a chadw'r templedi casglu 'errata', 'examiner/moderator posts' a 'missing scripts' a ddefnyddir ar hyn o bryd gan Ofqual.
- Ar yr adeg hon, nid ydym yn bwriadu casglu fersiwn o dempledi dyfarnu'r haf Ofqual ar gyfer TAR a TGAU yn rheolaidd. Os bydd angen i ni gael data o'r fath gan gorff dyfarnu at ddibenion ymchwil, byddwn yn rheoli hynny fesul achos.
- Nid ydym yn bwriadu casglu data ar ymgeiswyr a gofrestrwyd gan ganolfannau y tu allan i Gymru mewn unrhyw un o'n templedi casglu data cymwysterau cyffredinol.

Mae Tabl 4 yn crynhoi'r gwahaniaethau rhwng y templedi newydd a gynigir gan Cymwysterau Cymru a thempledi presennol Ofqual (ar adeg cyfres Mehefin 2017). Mae rhai ohonynt yr un peth â thempledi Ofqual, neu'n debyg iddynt, mae eraill yn wahanol iawn iddynt.

Templedi 'tebyg': Dynodir y rhain gan 'N' yn ail golofn Tabl 4. Maent yn debyg iawn neu'n union debyg i'r templedi y mae Ofqual yn eu defnyddio ar hyn o bryd (ar adeg cyfres yr haf 2017). Y prif wahaniaethau, yn ogystal â'r codau a ychwanegwyd at y templed cofrestriadau, cofrestriadau hwyr a dyfarniadau, yw bod y maes 'gwlad' wedi'i ddileu (nid oes ei angen gan y dylai'r holl ddata a ddychwelir i Cymwysterau Cymru ymwneud â dysgwyr yng Nghymru) a bod rhif cymeradwyo/dynodi cymhwyster Cymwysterau Cymru wedi'i ychwanegu o QiW.

Templedi 'gwahanol iawn': Dynodir y rhain gan 'Y' yn ail golofn Tabl 4. Mae'r templedi hyn yn wahanol iawn i dempledi haf 2017 Ofqual. Y prif wahaniaeth rhwng pob un o'r templedi hyn yw'r graddau y mae angen cyfuno data. Rydym yn arbennig o awyddus i gael adborth ar y templedi hyn.

Mae gwybodaeth am dempledi presennol Ofqual ar gael yn:

<https://www.gov.uk/government/publications/submitting-data-to-ofqual>

Tabl 4 Y gydberthynas rhwng ein templedi arfaethedig ar gyfer cymwysterau cyffredinol a thempledi presennol Ofqual

Templed(i)	Yn wahanol iawn i Ofqual?	Gwahaniaeth(au)	Rhesymeg
Cofrestriadau (Cofrestriadau, Cofrestriadau Hwyr a Dyfarniadau) (Cyfeirnod templed Ofqual: T1)	N	Yn gofyn am niferoedd wedi'u cyfuno o hyd, ond mae'n cynnwys codau cymhwyster, manyleb a chofrestru; data i'w cofnodi ar y lefelau cymwys isaf ar gyfer cofrestru ar gyfer cymhwyster h.y. cofnodir cofrestriadau i lawr at lefel elfen ac is-uned hyd yn oed pan na fydd ymgeisydd yn sefyll arholiad.	Gwelliant i alluogi dealltwriaeth fwy cynhwysfawr o gofrestriadau. Mae hyn yn osgoi'r angen i ofyn am ddata cofrestriadau mewn templedi eraill ac yn ei gwneud yn bosibl i ddata gael eu casglu ar gyfer themâu eraill, megis adolygiadau o waith marcio a chamymddwyn, i'w rhoi yng nghyd-destun cofrestriadau.
Cofrestriadau yn ôl grŵp blwyddyn	N	Yr un peth â thempled Ofqual	
Atgyfeiriadau	N	Yr un peth â thempled Ofqual	
Papurau sydd wedi'u Haddasu (T15)	N	Yr un peth â thempled Ofqual	
Adolygiadau Estynedig (T8a)	N	Yr un peth â thempled Ofqual	
E-asesu	N	Yr un peth â thempled Ofqual	
Marcio Ar-lein a Marcio Traddodiadol (T5)	N	Yr un peth â thempled Ofqual	
Adolygu Gwaith Marcio (EaRs)	Y	Mae Ofqual yn defnyddio un templed casglu ar lefel ymgeisydd. Rydym yn cynnig cyfanswm o chwe thempled ar gyfer casglu data wedi'u cyfuno: Pedwar templed ar lefel uned/is-elfen ar gyfer casglu data wedi'u cyfuno ar gyfer pob math o wasanaeth. Ynghyd â dau dempled i gasglu newidiadau i raddau o ddwy radd neu fwy a	Mae'r templedi arfaethedig yn ddigonol i ddiwallu anghenion o ran dadansoddi a chyhoeddi ystadegau yn rheolaidd, gan gynnwys atgynhyrchu cyhoeddiadau Ystadegau Swyddogol Ofqual hyd yma, tra'n sicrhau cysondeb hefyd rhwng prosesau casglu data wedi'u cyfuno.

Templed(i)	Yn wahanol iawn i Ofqual?	Gwahaniaeth(au)	Rhesymeg
		chfanswm graddau cymwysterau a heriwyd.	
Apeliadau	Y	<p>Mae Ofqual yn defnyddio un templed newydd (o fis Mehefin 2017) ar lefel ymgeisydd.</p> <p>Rydym yn cynnig un templed ar lefel uned/is-uned ar gyfer casglu data wedi'u cyfuno.</p>	<p>Mae'r templedi arfaethedig yn ddigonol i ddiwallu anghenion o ran dadansoddi a chyhoeddi ystadegau yn rheolaidd, gan gynnwys atgynhyrchu cyhoeddiadau Ystadegau Swyddogol Ofqual hyd yma, tra'n sicrhau cysondeb hefyd rhwng prosesau casglu data wedi'u cyfuno.</p>
Camymddwyn	Y	<p>Mae Ofqual yn defnyddio un templed newydd (o fis Mehefin 2017) ar lefel ymgeisydd.</p> <p>Rydym yn cynnig dau dempled ar gyfer casglu data wedi'u cyfuno ar achosion o gamymddwyn ar lefel canolfan ac ymgeisydd gyda meysydd codau cofrestru ac uned/is-uned.</p>	<p>Mae'r templedi arfaethedig yn ddigonol i ddiwallu anghenion o ran dadansoddi a chyhoeddi ystadegau yn rheolaidd, gan gynnwys atgynhyrchu cyhoeddiadau Ystadegau Swyddogol Ofqual hyd yma, tra'n sicrhau cysondeb hefyd rhwng prosesau casglu data wedi'u cyfuno.</p>

Templed(i)	Yn wahanol iawn i Ofqual?	Gwahaniaeth(au)	Rhesymeg
Ystyriaeth Arbennig	Y	<p>Mae Ofqual yn defnyddio un templed ar lefel ymgeisydd (o fis Mehefin 2017).</p> <p>Rydym yn cynnig dau dempled casglu data wedi'u cyfuno sy'n casglu cyfansymiau a thariffau, ar lefel uned/is-uned. Gofynnir i gyrff dyfarnu ddarparu data yn y templed cyfansymiau yn ôl categori o anfantais.</p>	<p>Mae'r templedi arfaethedig yn ddigonol i ddiwallu anghenion o ran dadansoddi a chyhoeddi ystadegau yn rheolaidd, gan gynnwys atgynhyrchu cyhoeddiadau Ystadegau Swyddogol Ofqual hyd yma, tra'n sicrhau cysondeb hefyd rhwng prosesau casglu data wedi'u cyfuno.</p>

Y broses cyflwyno data a chanllawiau

Byddwn yn llunio canllawiau i gyrff dyfarnu ar sut i gwblhau pob templed casglu. Byddwn yn ceisio adborth gan gyrff dyfarnu ar ein canllawiau cyn gofyn iddynt ddechrau defnyddio templed.

Bydd angen i gyrff dyfarnu gyflwyno data i ni gan ddefnyddio QiW yn hytrach na thrwy Borth Ofqual. Rydym yn disgwyl defnyddio'r un fformat ar gyfer data ag sy'n ofynnol gan Ofqual (fformat .csv)

Rhagor o Wybodaeth

Sut i ymateb	<p>Dylech ymateb i'r ymgynghoriad hwn gan ddefnyddio'r ffurflen ar-lein.</p> <p>Mae hyn yn ei gwneud yn haws i ni goladu a dadansoddi'r ymatebion a gawn.</p> <p>Fel arall, gallwch e-bostio eich ymateb i'r cyfeiriad isod.</p> <p>Mae'r ffurflen ar-lein a'r fersiwn PDF o'r ymgynghoriad ar gael ar ein gwefan yn www.cymwysteraucymru.org</p>
Dyddiad cau	Rhaid i chi gyflwyno eich ymateb erbyn 18:00 ar ddydd Gwener 15 Medi 2017.
Manylion cyswllt	I gael rhagor o wybodaeth, e-bostiwch: datapoint@qualificationswales.org

<p>Diogelu data</p>	<p>Bydd Cymwysterau Cymru yn dadansoddi ac yn ystyried pob ymateb a gawn i'r ymgynghoriad hwn. Caiff adroddiad cryno ar y canfyddiadau ei gyhoeddi ar wefan Cymwysterau Cymru. Lle y bo'n briodol, bydd yr adroddiad hwn yn nodi tueddiadau mewn ymatebion ac yn cysylltu'r rhain â nodweddion ymatebwyr.</p> <p>Efallai y byddwn hefyd yn cyhoeddi ymatebion yn llawn, os ystyrir bod hyn yn berthnasol i'r ymgynghoriad. Gofynnir i ymatebwyr am eu caniatâd i gyhoeddi eu henwau neu enwau eu sefydliad, a'u trefi post gyferbyn â'u hymatebion. Fodd bynnag, nid yw hyn yn orfodol. Os ydych yn fodlon i ni gyhoeddi eich enw, nodwch hynny yn eich ymateb i'r ymgynghoriad drwy dicio'r blwch yng nghwestiwn 13.</p> <p>Caiff yr holl ddata a ddelir gan Cymwysterau Cymru eu cadw yn unol â Chyfraith Diogelu Data y DU. Dim ond at ddibenion yr ymgynghoriad hwn ar ein templedi arfaethedig ar gyfer casglu data cymwysterau cyffredinol y cânt eu defnyddio.</p> <p>Am fod Cymwysterau Cymru yn gorff cyhoeddus, gellir ystyried yr holl ddeunydd ysgrifenedig a ddelir gennym, gan gynnwys unrhyw ohebiaeth a anfonwch atom, i'w ryddhau yn dilyn cais o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r gyfraith yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl o dan rai amgylchiadau. Os nad ydych wedi rhoi caniatâd i'ch enw chi neu enw eich sefydliad a'ch tref bost gael eu cyhoeddi, ystyrir hyn wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth. Fodd bynnag, efallai y bydd achosion prin pan fydd yn rhaid i ni ryddhau'r wybodaeth hon. O dan yr amgylchiadau hyn, byddwn yn ceisio eich hysbysu am y penderfyniad hwn.</p>
----------------------------	---

Cwestiynau'r Ymgynghoriad**1. A yw ein cynigion ar gyfer casglu data ar gymwysterau cyffredinol ar gyfer dysgwyr a gofrestrwyd gan ganolfannau yng Nghymru yn glir?**Ydyn Nac ydyn

Os mai 'Nac ydyn' oedd eich ateb, esboniwch pa eglurhad neu wybodaeth bellach sydd ei (h)angen arnoch:

2. A fyddai'n well gennych petaem...

... yn rhoi ein templedi arfaethedig neu fersiwn ohonynt a ddiwygiwyd o ganlyniad i'r ymgynghoriad hwn ar waith yn defnyddio templedi sy'n cyfateb i'r rhai a ddefnyddir gan Ofqual ar hyn o bryd yn casglu data wedi'u dadgyfuno ar gymwysterau cyffredinol ar lefel ymgeisydd ?

Nodwch y rheswm (rhesymau) dros eich dewis

3. A fydd darparu'r data yn y templedi arfaethedig sy'n debyg i'r rhai a ddefnyddir gan Ofqual yn creu anawsterau sylweddol i'ch sefydliad?

Dynodir y templedi 'tebyg' gan 'N' yn ail golofn Tabl 4.

Bydd Na fydd

Os mai 'Bydd' oedd eich ateb, nodwch pa dempled(i) neu feysydd data a fyddai'n creu anhawster sylweddol, a pham:

4. A fydd darparu'r data yn y templedi arfaethedig sy'n wahanol iawn i'r rhai a ddefnyddir gan Ofqual yn creu anawsterau sylweddol i'ch sefydliad?

Dynodir y templedi 'gwahanol iawn' gan 'Y' yn ail golofn Tabl 4.

Bydd Na fydd

Os mai 'Bydd' oedd eich ateb, nodwch pa dempled(i) neu feysydd data a fyddai'n creu anhawster sylweddol, a pham:

5. Yn eich barn chi, a oes unrhyw agweddau ar y templedi casglu arfaethedig y gellid eu gwella?Oes Nac oes

Os mai 'Oes' oedd eich ateb, nodwch yr hyn y gellid ei wella, yn eich barn chi:

6. Yn eich barn chi, a yw'r amserlen gasglu arfaethedig yn rhesymol ac yn gyflawnadwy?
Ydy <input type="checkbox"/> Nac ydy <input type="checkbox"/>
Os mai 'Nac ydy', oedd eich ateb, eglurwch pam:
7. Yn eich barn chi, a oes unrhyw agweddau ar yr amserlen gasglu arfaethedig y gellid eu gwella?
Oes <input type="checkbox"/> Nac oes <input type="checkbox"/>
Os mai 'Oes' oedd eich ateb, nodwch yr hyn y gellir ei wella:
8. Rhowch adborth ar ymarferoldeb casglu data ar yr iaith neu'r ieithoedd a ddefnyddir gan ymgeiswyr i ymateb i dasgau asesu ar lefel elfen. Pa newidiadau, os oes unrhyw rai, y byddai angen eu gwneud er mwyn gwneud hyn? Faint o amser y byddai'n ei gymryd i wneud newidiadau o'r fath?
9. Unrhyw sylwadau eraill
Os oes gennych unrhyw sylwadau ar y dull gweithredu arfaethedig neu unrhyw gwestiynau amdano, neu os ydych o'r farn nad yw rhywbeth wedi cael ei esbonio'n ddigon da, defnyddiwch y lle hwn i roi gwybod i ni.
Gwybodaeth Ychwanegol
10. Os rhowch fanylion cyswllt, mae'n bosibl y byddwn yn cysylltu â chi ac yn gofyn i chi egluro eich atebion. Darllenwch ein datganiad ar ddiogelu data o dan Gwybodaeth Bellach.

Enw:

Cwmni:

Cyfeiriad e-bost:

Tref bost:

11. A ydych yn ymateb fel unigolyn, neu ar ran eich sefydliad?

Unigolyn []

Sefydliad []

12. Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, dewiswch y math o sefydliad isod.

Corff dyfarnu []

Canolfan []

Corff sector []

Rhanddeiliad arall []

Arall (nodwch) []

13. Efallai y byddwn yn cyhoeddi ymatebion yn llawn, os ystyrir bod hyn yn berthnasol i'r ymgynghoriad. O dan yr amgylchiadau hyn, byddem yn cyhoeddi enw a thref bost yr ymatebwr. Os ydych yn fodlon i'r manylion hyn gael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'ch ymateb, dewiswch 'ydw' isod. Os nad ydych yn fodlon gadawch y cwestiwn hwn yn wag.

'Ydw' []

Y Camau Nesaf

Byddwn yn ystyried ac yn dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, a byddant yn llywio'r penderfyniadau terfynol ar y templedi a'r amserlen gasglu y byddwn yn eu cyflwyno.

Byddwn yn rhoi adborth ar ffurf adroddiad ar yr ymgynghoriad.

Mae proses ddyfarnu'r haf sy'n dal i fynd rhagddi a'n cynnig i gasglu data ar gofrestriadau ar gyfer cyfres arholiadau Tachwedd 2017 ym mis Hydref 2017 wedi llywio'r broses o gynllunio'r dyddiad dod i ben ar gyfer yr ymgynghoriad hwn, sef 15 Medi 2017. Byddwn yn rhoi blaenoriaeth i wneud a chyfleu penderfyniadau ar y templedi cofrestru a wneir ar sail yr ymgynghoriad hwn.